| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu** |
| **Dyddiad:** | **28 Tachwedd 2024** |
| **Teitl:** | **Adolygiad o Ddosbarthiadau a Mannau Pleidleisio** |
| **Pwrpas** | **Cymeradwyo canlyniadau'r adolygiad i'w cyflwyno i'r Cyngor Llawn** |
| **Awdur:** | **Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |
| **Aelod Cabinet** | **Cynghorydd Menna Trenholme, Cefnogaeth Gorfforaethol** |

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Cymeradwyo canlyniadau'r adolygiad o ddosbarthiadau pleidleisio a'r mannau pleidleisio yn etholaethau seneddol Dwyfor Meirionnydd a Bangor Aberconwy (i'r graddau y maent o fewn Gwynedd) o fewn Gwynedd, yn dilyn cyfnod ymgynghori, er mwyn ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn am benderfyniad.

## 2. Y RHESWM PAM Y CEISIR PENDERFYNIAD

2.1 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol rannu'u hardal i ddosbarthiadau pleidleisio ar gyfer etholiadau seneddol y DU, ac i ddynodi mannau pleidleisio ar gyfer y dosbarthiadau pleidleisio hyn. O dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a Rheoliadau Arolwg Dosbarthiadau Pleidleisio a Mannau Pleidleisio (Etholiadau Seneddol) 2006 mae'n ofynnol hefyd i'r Cyngor adolygu pob dosbarth bleidleisio a'r mannau pleidleisio bob pum mlynedd.

## 3. Cefndir

3.1 Dosbarth Pleidleisio yw'r ardal oddi fewn i'r etholaeth, ward neu ranbarth lle y gellir pennu man pleidleisio sy'n gyfleus i etholwyr. Man pleidleisio yw'r adeilad neu'r ardal lle bydd gorsafoedd pleidleisio yn cael eu dewis gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

3.2 Cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ac yn ymarferol, mae'n rhaid i'r awdurdod ddynodi mannau sy'n hawdd i etholwyr sydd ag anableddau eu cyrraedd. Fodd bynnag, rhaid i'r awdurdod ystyried anghenion yr holl etholwyr, ac ni ddylai ddynodi man sydd mor bell i ffwrdd oddi wrth y rhan fwyaf o'r etholwyr yn y dosbarth pleidleisio, nes bod yn anghyfleus iddynt gyrraedd yno.

3.3 Mae adolygu mannau pleidleisio yn broses barhaus ac nid oes dim i rwystro gwneud newidiadau ar unrhyw adeg cyn yr adolygiad statudol nesaf. Bydd y sefyllfa felly yn parhau i gael ei monitro, a gwneir unrhyw newid mewn ymgynghoriad â'r aelod lleol.

## 4. YR ADOLYGIAD

4.1 Cynhaliwyd yr adolygiad statudol rhwng 23 Medi 2024 a 1 Tachwedd 2024. Fel rhan o'r adolygiad, cyhoeddwyd rhybudd cyhoeddus o'r adolygiad ynghyd â manylion am y dosbarthiadau a gorsafoedd pleidleisio presennol. Anfonwyd copïau i bartïon allai fod â diddordeb, megis aelodau Cyngor Gwynedd, cynghorau tref a chymuned y sir a'r pleidiau gwleidyddol. Gofynnwyd hefyd am sylwadau gan aelodau'r Grŵp Craidd Cydraddoldeb fel personau sydd ag arbenigedd penodol mewn perthynas â mynediad i adeiladau neu gyfleusterau i bobl â gwahanol fathau o anabledd. Wrth gysylltu, eglurwyd y byddai o fudd cael awgrymiadau am leoliad arall, pe mynegid pryderon ynghylch â gorsaf bleidleisio benodol

4.2 Rhoddodd y ddau etholiad a gynhaliwyd eleni wybodaeth gyfredol i ni am gyflwr ac addasrwydd gorsafoedd. Anfonwyd holiadur at bwynt cyswllt pob gorsaf bleidleisio yn gofyn cyfres o gwestiynau am gyflwr yr orsaf ymlaen llaw. Yn ogystal â hyn rhoddwyd rhestr wirio fanwl i'n harolygwyr gorsafoedd i'w lenwi wrth iddynt ymweld â'u gorsafoedd ar y diwrnod pleidleisio ym mis Mai. Rydym hefyd ym mhob etholiad yn gofyn am adborth gan ein swyddogion llywyddu ac arolygwr ar ôl yr etholiad. Mae unrhyw wybodaeth berthnasol a gasglwyd drwy'r prosesau hyn wedi eu hystyried fel rhan o'r adolygiad.

4.3 Mae'n ofynnol fel rhan o'r broses i'r Swyddog Canlyniadau Gweithredol wneud sylwadau ar y gorsafoedd. Yn sgil y newidiadau i'r ffiniau etholaethau seneddol roedd hyn golygu bod rhaid gwahodd sylwadau gan Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) etholaeth Bangor Aberconwy mewn perthynas â'r rhai hynny yn yr etholaeth newydd sydd o fewn Gwynedd. Roedd y sylwadau hyn wedi eu cynnwys yn y wybodaeth a gyhoeddwyd ac i'w gweld yn yr **Atodiad**.

## 5. YMATEB I'R YMGYNGHORI

5.1 Mae'r ymatebion a dderbyniwyd wedi eu crynhoi yn yr atodiad ynghyd ag unrhyw sylwadau pellach gennym i'r ymatebion hynny.

## 6. ARGYMHELLIAD

6.1 Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad a nodi os yw'n barod i dderbyn canlyniadau'r adolygiad, fel y nodir yn yr Atodiad, a hefyd os dymunir cyflwyno unrhyw sylwadau ar ei gynnwys i'w rhoi gerbron y Cyngor.